

Polisi'r Gymraeg

Welsh Language Policy



Cynnwys | Contents

Rhagymadrodd Introduction.....	3
Ein hymrwymiad ni Our commitment	5
A. Cyflenwi gwasanaethau Service delivery.....	6
B. Llunio/gweithredu polisi Policy making/implementation.....	7
C. Hybu Promotion.....	8
D. Gweithredu Operational.....	9
E. Cadw cofnodion Record-keeping.....	10
Ein camau nesaf What next for us?.....	11

Rhagymadrodd

Mae ymrwymiad Adnodd i'r Gymraeg yn gwbl ganolog i'n cenhadaeth, sef cefnogi ac ysbrydoli dysgu drwy adnoddau addysgiadol dwyieithog sy'n cyfoethogi'r Cwricwlwm i Gymru.

Fel sefydliad dwyieithog balch, rydyn ni'n cydnabod bod iaith nid yn unig yn fodd o gyfathrebu ond yn fynegiant bywiog o ddiwylliant, hunaniaeth a pherthyn.

Fel corff cyhoeddus yng Nghymru, mae'n rhaid i Adnodd gydymffurfio â nifer o Safonau'r Gymraeg a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae ein hagwedd at y Gymraeg yn mynd y tu hwnt i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg; mae'n dangos ein hymroddiad i greu amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'n naturiol ochr yn ochr â'r Saesneg ym mhopeth a wnawn. O'n ffyrdd mewnol o weithredu i'n gwaith gyda'r cyhoedd, rydyn ni'n dilyn athroniaeth sy'n dathlu treftadaeth gyfoethog y Gymraeg wrth sicrhau ei lle hanfodol yn nyfodol Cymru.

Mae'r ymrwymiad hwn yn cyd-fynd â'n gwerthoedd sefydliadol, sef: bod yn ymatebol i anghenion y sector, yn gydweithredol yn ein harferion, ac yn greadigol yn ein dulliau. Yn union fel rydyn ni'n credu y dylai adnoddau addysgol o ansawdd da danio dychymyg a meithrin cariad gydol oes at ddysgu, credwn fod ein hagwedd at y Gymraeg yn ysbrydoli hyder a balchder yn y defnydd o'r Gymraeg, a hynny ymhlith siaradwyr rhugl a dysgwyr fel ei gilydd.

Mae'r ymrwymiad hwn hefyd yn adlewyrchu ein cyfrifoldebau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn enwedig y nod llesiant cenedlaethol o greu Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Introduction

Adnodd's commitment to the Welsh language embodies the heart of our mission: to support and inspire learning through bilingual educational resources that enrich the Curriculum for Wales.

As a proudly bilingual organisation, we recognise that language is not merely a tool for communication but a vibrant expression of culture, identity, and belonging.

As a public body in Wales, Adnodd must meet several Welsh Language Standards set by the Welsh Language Commissioner under the Welsh Language Measure (2011).

Our approach to the Welsh language goes beyond compliance with Welsh Language Standards; it represents our dedication to creating an environment where Welsh thrives naturally alongside English in everything we do. From our internal operations to our public-facing work, we embrace a philosophy that celebrates the Welsh language's rich heritage while ensuring its vital place in Wales's future.

This commitment aligns with our organisational values, which are: being responsive to sector needs, collaborative in our partnerships, inclusive in our practices, and creative in our approaches. Just as we believe high-quality educational resources should spark the imagination and foster a lifelong love of learning, we believe our approach to Cymraeg, for both fluent speakers and learners, inspires confidence and pride in Welsh language use.

This commitment also reflects our responsibilities under the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, particularly the national well-being goal of creating a Wales of vibrant culture and a thriving Welsh language.

Wrth ymgorffori'r Gymraeg yn ystyrion drwy ein holl sefydliad a'n gwaith, rydyn ni'n cyfrannu at gynaliadwyedd diwylliannol hirdymor, gan sicrhau bod cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yn parhau i fyw drwy'r iaith, ei dysgu a'i dathlu.

Drwy fynd ati'n fwriadol i wreiddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar ein gwaith, rydyn ni'n ceisio bod yn batrwm o arferion gorau y gall eraill eu dilyn. Rydyn ni'n barod i ysgwyddo ein cyfrifoldeb i gyfrannu'n ystyrion at weledigaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, yn enwedig wrth fynd i'r afael â'r diffyg cydbwysedd rhwng adnoddau addysgol Cymraeg a Saesneg.

Cenhadaeth Adnodd yw arwain a chydlynu'r broses o ddarparu adnoddau addasadwy a syml i'w defnyddio yn y Gymraeg a'r Saesneg, a fydd yn ysbrydoli addysgu a dysgu'r Cwricwlwm i Gymru. Drwy'r genhadaeth honno, rydyn ni'n ymrwymo roi ein gwerthoedd Cymraeg ar waith gyda gofal ac uchelgais.

Drwy wneud hynny, rydyn ni'n gobeithio cyfrannu at Gymru lle bydd ein hiaith yn ffynnu am genedlaethau i ddod, ac at Gymru lle mae'r Gymraeg yn perthyn i bawb.

By embedding Welsh meaningfully across our organisation and our work, we contribute to long-term cultural sustainability, ensuring that Cymraeg continues to be lived, learned, and celebrated by current and future generations.

Through intentional integration of Welsh across all aspects of our work, we aim to model best practices that others might follow. We take ownership of our responsibility to contribute meaningfully to the Welsh Government's Cymraeg 2050 vision, particularly in addressing the imbalance between Welsh and English educational resources.

Adnodd's mission is to lead and coordinate the provision of adaptable and user-friendly resources in both Welsh and English that will inspire the teaching and learning of the Curriculum for Wales. Through this mission, we commit to living our Welsh language values with care and ambition.

By doing so, we hope to contribute to a Wales where our language flourishes for generations to come; a Wales where Cymraeg belongs to us all.



Ein hymrwymiad ni

Mae'r polisi'n berthnasol i bob gwasanaeth a ddarperir gan y sefydliad, gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir ar ei ran gan contractwyr trydydd parti.

Mae ein hymrwymiad yn cyd-fynd â gwerthoedd ein sefydliad:

- Ymateb i anghenion y sector
- Cydweithio â'n partneriaid
- Bod yn gynhwysol yn ein harferion
- Bod yn greadigol yn ein dulliau

Mae'r safonau'n berthnasol i'r meysydd canlynol:

A Cyflenwi gwasanaethau

B Llunio/gweithredu polisi

C Hybu

D Gweithredu

E Cadw cofnodion

Rydyn ni'n mynd y tu hwnt i'r rhain i sicrhau cysondeb â strategaeth Adnodd a'n holl bolisiau eraill.

Our commitment

This policy relates to all services delivered by the organisation including those services delivered on behalf of the organisation by third-party contractors.

Our commitment aligns with our organisational values:

- Responsive to sector needs
- Collaborative in our partnerships
- Inclusive in our practices
- Creative in our approaches

The standards relate to the following areas:

A Service delivery

B Policy making/implementation

C Promotion

D Operational

E Record-keeping

We go beyond these to ensure coherence across Adnodd's strategy and other policies.

A Cyflenwi gwasanaethau

1. Rydyn ni'n nodi dewis iaith y defnyddiwr ac yn defnyddio'r iaith hon ar gyfer ein holl gyfathrebu yn y dyfodol.
2. Mae gohebiaeth gyda defnyddwyr sydd heb nodi dewis iaith yn ddwyieithog.
3. Mae pob gohebiaeth gyhoeddus yn ddwyieithog.
4. Rydyn ni'n ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth y byddwn yn ei chael yn Gymraeg.
5. Mae pob digwyddiad cyhoeddus yn cael ei gynnal yn Gymraeg gyda gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.
6. Mae cyfarfodydd sydd wedi'u trefnu a'u cadeirio gan Adnodd yn cael eu cynnal yn Gymraeg ac yn cynnwys cyfieithu ar y pryd os bydd angen.
7. Mae llofnodion e-bost staff yn ddwyieithog ac yn cynnwys y datganiad canlynol: "P'un a ydych yn dewis ateb yr e-bost hwn yn Gymraeg neu yn Saesneg, ni fydd yn effeithio ar yr amser ymateb. Whether you choose to reply to this email in Welsh or English, it will not affect the response time."
8. Mae unrhyw ddeunyddiau ysgrifenedig sy'n ymwneud â chyfarfodydd a digwyddiadau (papurau, adroddiadau, ffurflenni, sleidiau ac ati) yn cael eu darparu'n ddwyieithog.
9. Mae deunyddiau print ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd. Bydd y fersiynau Saesneg yn nodi'n glir bod y dogfennau hyn ar gael yn Gymraeg.
10. Mae gwefan Adnodd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gall defnyddwyr newid o un iaith i'r llall yn hawdd.

A Service delivery

1. We establish the language choice of every user and we will use this for all future communications.
2. Correspondence with users who have not stated a language choice is bilingual.
3. All public correspondence is bilingual.
4. Any correspondence received in Welsh is replied to in Welsh.
5. Public events are conducted in Welsh with simultaneous translation.
6. Meetings arranged and chaired by Adnodd will be conducted in Welsh with simultaneous translation if needed.
7. All staff e-mail signatures are bilingual and include the following statement: "P'un a ydych yn dewis ateb yr e-bost hwn yn Gymraeg neu yn Saesneg, ni fydd yn effeithio ar yr amser ymateb. Whether you choose to reply to this email in Welsh or English, it will not affect the response time."
8. All written material relating to meetings and events (papers, slides, reports, forms etc.) is provided bilingually.
9. Printed materials are made available in Welsh and English at the same time. English versions will clearly state that the document is available in Welsh.
10. Adnodd's website is available in Welsh and English. Users are able to easily switch from one language to the other.

Ein nod erbyn Ebrill 2028 yw:

1. Creu cronfa ar gyfer cefnogi cyfieithwyr ym maes Ysgrifennu Triawd. Bydd hyn yn datblygu sgiliau a hyder pobl i greu cynnwys dwyieithog ar gyfer y sector addysg.
2. Sicrhau bod pob math o ryngweithio yn Saesneg yn cynnwys rhai elfennau o'r Gymraeg e.e "croeso"/"bore da"/"diolch yn fawr". Bydd hyn yn gwneud pobl yn fwy cyfarwydd â geirfa Gymraeg ac yn annog pobl eraill i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddyn nhw.

Our aim by April 2028 is to:

1. Establish a fund to support translators in Trio Writing. This will develop skills and confidence in creating bilingual content for the education sector.
2. Ensure all interactions conducted in English include some Welsh phrases e.g. "croeso"/"bore da"/"diolch yn fawr". This will increase familiarity with Welsh words and encourage others to use the Welsh they have.

B Llunio/gweithredu polisi

1. Rydyn ni'n sicrhau y bydd rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu drwy gyfrwng y Gymraeg wrth ymwneud â ni.
2. Rydyn ni'n comisiynu cyflenwyr sy'n gallu cyflwyno adnoddau a chynnyrch yn ddwyieithog.
3. Rydyn ni'n cefnogi ac yn argymhell ffyrdd y gall cyflenwyr gyflwyno adnoddau a chynnyrch yn ddwyieithog.
4. Mae'r holl bolisiâu, gweithdrefnau, canllawiau a ffurflenni mewnol ar gael i staff Adnodd ac aelodau'r Bwrdd yn ddwyieithog.
5. Gall ein staff gyfrannu at faterion sy'n berthnasol i'w gwaith yn Gymraeg neu yn Saesneg, gan gynnwys pan fyddan nhw'n cael dogfennau sy'n ymwneud â'u cyflogaeth.
6. Ysgrifennwyd ein polisi iaith drwy ddefnyddio'r dull Ysgrifennu Triawd.

B Policy making/implementation

1. We ensure that stakeholders are able to contribute to all our interactions through the medium of Welsh.
2. We commission suppliers that are able to deliver bilingual resources and outputs.
3. We support and recommend ways that suppliers can deliver bilingual resources and outputs.
4. All internal policies, procedures, guidance documents and forms are available to Adnodd staff and Board members bilingually.
5. Our staff can contribute to matters that relate to their employment in Welsh or English, including when receiving documents that relate to their employment.
6. Our Welsh language policy was written using the Trio Writing approach.

Ein nod erbyn Ebrill 2028 yw:

1. Cynnal asesiad o effaith pob un o'n polisiâu ar y Gymraeg.
2. Ysgrifennu polisiâu newydd gan ddefnyddio dull Ysgrifennu Triawd.
3. Penodi aelod o Fwrdd Adnodd i fod yn bencampwr y Gymraeg/dwyieithrwydd.

Our aim by April 2028 is to:

1. Undertake a Welsh language impact assessment of each of our policies.
2. Write new policies using the Trio Writing approach.
3. Establish a Welsh-language/bilingual champion as part of Adnodd's Board.

C Hybu

1. Rydyn ni'n cefnogi staff a rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu a defnyddio'r Gymraeg.
2. Mae holl ddeunydd cyhoeddus Adnodd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd.
3. Rydyn ni'n cymryd rhan mewn dathliadau a digwyddiadau Cymreig gan gynnwys Dydd Miwsig Cymru, Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol.
4. Rydyn ni'n cyflwyno ein holl ddigwyddiadau ar-lein a'n digwyddiadau wyneb yn wyneb yn Gymraeg gyda chyfieithu ar y pryd.
5. Rydyn ni'n hyrwyddo cynnwys dwyieithog ar ein cyfryngau cymdeithasol, gyda'r Gymraeg yn ymddangos gyntaf.

C Promotion

1. We support staff and key stakeholders to develop and use the Welsh language.
2. All publicly available content from Adnodd is available in Welsh and English at the same time.
3. We engage with Welsh celebrations and events including Dydd Miwsig Cymru, Eisteddfod yr Urdd and Eisteddfod Genedlaethol Cymru.
4. We deliver all online and in-person events in Welsh with simultaneous translation.
5. We promote bilingual content on social media, with Welsh positioned first.

Ein nod erbyn Ebrill 2028 yw:

1. Cydweithio â sefydliadau sy'n bartneriaid i ni er mwyn cefnogi a galluogi'r defnydd o'r Gymraeg.
2. Cydweithio â phrifysgolion i sicrhau ansawdd adnoddau dwyieithog wrth iddyn nhw gael eu datblygu.

Our aim by April 2028 is to:

1. Collaborate with partner organisations to support and enable Welsh language use.
2. Work with universities to quality-assure bilingual educational resources during development.

D Gweithredu

1. Mae staff sy'n dysgu Cymraeg yn gallu gweld opsiynau cymorth TG, er enghraifft offer cyfieithu Microsoft a Cysill.
2. Mae cyllid ar gael i gefnogi staff i ddysgu Cymraeg e.e. drwy gyrsiau hyfforddi.
3. Mae Adnodd yn defnyddio confensiwn dwyieithog i enwi a rhannu ffolderi a ffeiliau, gyda'r Gymraeg yn ymddangos gyntaf.
4. Mae dogfennau cyllid ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg ac yn cael eu darparu yn newis iaith y cyflenwr.
5. Mae cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda dogfennau dwyieithog a chyfieithu ar y pryd.
6. Rydyn ni'n hysbysebu pob swydd gan ofyn yn ddelfrydol am sgiliau lefel canolradd yn y Gymraeg. Bydd pob aelod o staff yn cael ei gefnogi i ddatblygu ei sgiliau Cymraeg.
7. Mae angen i o leiaf un o'r cwestiynau yn y cyfweiliad gael ei ofyn a'i ateb yn Gymraeg (pan fydd ymgeisydd yn dewis cael ei gyfweld yn Saesneg).
8. Mae gan bob aelod o staff ddiwrnod ychwanegol o wyliau blynyddol i gyd-fynd â Dydd Gŵyl Dewi.

Ein nod erbyn Ebrill 2028 yw:

1. Sefydlu 'Amser Panad Adnodd' yn fisol – galwad hanner awr i bobl ymarfer eu Cymraeg gyda'u cyd-weithwyr.
2. Ceisio ymwneud â phob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.
3. Defnyddio busnesau Cymraeg a busnesau o Gymru, e.e. lleoliadau, canolfannau celfyddydol, llety, cwmnïau arlwyio a darparwyr hyfforddiant.

D Operational

1. Staff who are learning Welsh are shown IT support options. For example, in-built Microsoft translation tools and Cysill.
2. Funding is available to support staff to learn Welsh e.g. through training courses.
3. Adnodd uses a bilingual naming convention for shared staff folders and files, with Welsh being written first.
4. Finance documents are available in Welsh and English and are provided in the supplier's language of choice.
5. Board meetings are held through the medium of Welsh with bilingual documents and simultaneous translation.
6. We advertise all roles as ideally needing 'intermediate-level Welsh'. All staff will be supported to develop their Welsh skills.
7. We require at least one interview question to be asked and answered in Welsh (where the candidate chooses to interview in English).
8. All staff have an extra day of annual leave for St David's Day.

Our aim by April 2028 is to:

1. Establish 'Amser Panad Adnodd' – a monthly, 30-minute call to practise Cymraeg with colleagues.
2. Strive to engage with all 22 local authorities across Wales.
3. Use Welsh-speaking and Welsh-owned businesses, e.g. venues, arts centres, accommodation and catering companies, training providers.

4. Caffael gwasanaethau gan gwmnïau Cymraeg a chwmnïau o Gymru, e.e. gwasanaethau ariannol, cyfathrebu a marchnata, ymchwil ac adnoddau dynol.
5. Mynd y tu hwnt i gyfieithu llythrennol gan anelu at ddefnyddio'r Gymraeg fwyaf cyfoes a chynhwysol. Byddwn yn cydweithio â phobl sydd â phrofiad bywyd a phrofiad a ddysgwyd er mwyn sicrhau hyn.

4. Procure services from Welsh-speaking or Wales-based companies, e.g. for financial services, comms and marketing, research and HR.
5. Go beyond literal translation and instead strive to use the most up-to-date, inclusive Cymraeg. We will collaborate with people with lived and learned experience to enable this (tone of voice).

E Cadw cofnodion

1. Mae Adnodd yn cadw cofnod ffurfiol o'r canlynol:
 - i. Hyfforddiant pob aelod o staff, gan gynnwys yn y Gymraeg
 - ii. Unrhyw gwynion sy'n dod i law sy'n ymwneud â Safon yr Iaith Gymraeg
 - iii. Y camau a gymerir i sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg
 - iv. Yr holl asesiadau a wneir i benderfynu ar lefel y Gymraeg sy'n briodol ar gyfer pob swydd wag
2. Bydd adroddiad sy'n cynnwys y cofnodion uchod yn cael ei gyflwyno yn flynyddol i Fwrdd Adnodd.

Ein nod erbyn Ebrill 2028 yw:

1. Edrych ar y defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg ar y cyfryngau cymdeithasol ac adrodd am hynny.
2. Creu adroddiad blynyddol yn dangos datblygiadau a llwyddiannau Adnodd ym maes y Gymraeg.

E Record-keeping

1. Adnodd keeps a formal record of:
 - i. All staff training including in the Welsh language
 - ii. Any complaints received relating to the Welsh Language Standards
 - iii. Action taken to ensure compliance with the Welsh Language Standards
 - iv. All assessments carried out to decide the suitable Welsh language level for each vacancy
2. A report containing the above records is presented to the Adnodd Board annually.

Our aim by April 2028 is to:

1. Track and report on the use of Welsh and English language on social media.
2. Create an annual report to set out Adnodd's Welsh language achievements and developments.

Ein camau nesaf


- Byddwn yn creu cynllun gweithredol, gyda phob amcan yn cael ei neilltuo i aelod o staff a/neu aelod o'r Bwrdd i arwain yn y maes hwnnw.
- Byddwn yn cynnal adolygiad o'r holl amcanion bob chwe mis.
- Byddwn yn rhannu polisi'r Gymraeg a'n cynllun gweithredol gyda Chomisiynydd y Gymraeg.
- Byddwn yn ysgrifennu blog am sut defnyddiwyd y dull Ysgrifennu Triawd i ddatblygu'r polisi yma.

Drwy'r polisi yma, mae Adnodd yn cadarnhau ei ymrwymiad hirdymor i'r Gymraeg fel rhan fyw o'n diwylliant, ein gwaith, a'n gwasanaeth cyhoeddus. Drwy arwain gyda bwriad a gofal, a thrwy gydweithio, ein nod yw gwneud ein rhan ni i sicrhau dyfodol ffyniannus i'r Gymraeg ac i ddysgwyr, addysgwyr a chymunedau ledled Cymru.

What next for us?

- We will create an operational plan, with each aim being allocated a lead member of staff and/or Board member.
- We will carry out six-monthly reviews of all aims.
- We will share our Welsh language policy and operational plan with the Welsh Language Commissioner.
- We will write a blog about using the Trio Writing approach to developing this policy.

Through this policy, Adnodd affirms its long-term commitment to the Welsh language as a living, evolving part of our culture, work, and public service. By leading with intention, collaboration and care, we aim to play our part in securing a thriving future for Cymraeg and for learners, educators and communities across Wales.



adnodd.llyw.cymru
adnodd.gov.wales